# 4.0 Beth yw rheoli risg?

Rheoli risg yw'r broses o nodi risgiau, gwerthuso'r effaith bosibl, a'u lliniaru. Y nod yw lleihau difrifoldeb eu heffaith a pha mor debygol ydyn nhw o ddigwydd pan fo modd. Mae rheoli risg yn amhrisiadwy i'r Cyngor a dylai fod yn rhan o'r gwaith o reoli gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae rhai o fanteision rheoli risg yn cynnwys:

- Atal difrod i enw da
- Gwneud penderfyniadau deallus
- Arwain at gynllunio'n llwyddiannus at y dyfodol

# 5.0 Beth yw risg?

Mae Risg yn cael ei ddiffinio fel y **posibilrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd ac yn cael effaith ar gyflawniad y strategaeth ac amcanion y busnes.** Mae 'risg' yn ddigwyddiad fydd yn cael effaith ar y Cyngor ac ar ddarparu gwasanaethau os na chaiff ei drin ac os na fydd unrhyw reoliadau ar waith.

## 5.1 MATHAU O RISG

Mae tri phrif fath o risg yng Nghyngor Sir y Fflint, sef:

- **Strategol** - risgiau sy'n cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol hirdymor neu ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol
- **Gweithredol** - risg a allai gael effaith ar y ddarpariaeth gwasanaeth dyddiol
- **Prosiect** - risg sy'n atal gallu'r Cyngor i ddarparu prosiect neu raglen yn llwyddiannus

## CAM 2: **ASESU**

Mae asesu risg yn golygu blaenoriaethu'r prif fygythiadau a chyfleoedd a deall eu maint.

Fel arfer, mae risg yn cael ei mesur drwy:

- **Tebygolrwydd** - pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd
- **Effaith** - pa mor ddifrifol fyddai'r canlyniadau os byddai'r risg yn digwydd

Pan fydd sgôr wedi'i sefydlu ar gyfer pob mesur, maent yn cael eu lluosi gyda'i gilydd i greu sgôr risg terfynol. Po uchaf fo'r sgôr, y mwyaf yw blaenoriaeth a brys y risg (gweler Adran 8, Matrics Risg am fwy o wybodaeth).

## CAM 3: **CAMAU RHEOLI**

Pan fydd risg wedi'i dynodi a'i hasesu, y cam nesaf yw penderfynu ar y ffordd orau o'i rheoli.

Mae'n bwysig nodi pa reolyddion / camau gweithredu a mesurau mewnol ychwanegol sydd eu hangen i leihau'r risg neu i'w hatal rhag gwaethygu. Mae'n bosibl na fydd y Cyngor yn gallu lleihau'r tebygolrwydd gyda rheolyddion mewnol bob amser, ond y nod bob amser yw lleihau'r effaith.

**Cwestiwn allweddol i'w ofyn yw: 'Beth ydych chi am ei wneud am y peth?'**

## CAM 4: **MONITRO AC ADOLYGU**

Mae monitro ac adolygu risgiau yn broses 'fyw' a rhaid eu monitro'n barhaus ar y lefelau priodol (y Cabinet, Tîm y Prif Swyddogion, Uwch Reolwr). Mae risgiau'n newid yn barhaus wrth i'r amgylchedd allanol a / neu ffactorau mewnol newid, felly mae'n bwysig monitro:

- Nad yw'r risg wedi newid
- Bod y ffordd o reoli'r risg yn dal yn briodol
- Bod y rheolyddion yn dal i weithio'n effeithiol i reoli a lleihau'r risg
- Drwy adolygu'n rheolaidd, mae risg newydd wedi'i nodi
- Gellir yn awr gau'r risg (wedi'i lliniaru'n llwyddiannus neu nid yw'r risg yn bodoli bellach)
- Nad yw'r risg yn dirywio (os yw risg yn dirywio, dylid dilyn y broses uwchgyfeirio, gweler Adran 7, Cydymffurfiaeth a Monitro, am ragor o wybodaeth).

# 8.0 Sgorio risg

Wrth asesu tebygolrwydd ac effaith risg, rhaid ystyried **'Pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd?'** a **'Pa mor ddifrifol fyddai'r canlyniad pe bai'r risg yn digwydd?'**

**Sgôr Risg Gynhenid** - Y sgôr cyn rhoi unrhyw fesurau ychwanegol ar waith. Nid yw hyn yn cynnwys mesurau a ystyrir fel busnes fel arfer yn draddodiadol, oherwydd er bod y mesurau hyn ar waith, mae'r risg yn dal i fodoli.

**Sgôr Risg Bresennol** - Maint y risg ar ôl rhoi mesurau ychwanegol ar waith, ar ben y mesurau busnes fel arfer. Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, dylai'r risg bresennol fod yn is na'r sgôr risg gynhenid, oni bai bod y mesurau sydd ar waith yn aneffeithiol.

**Sgôr Risg Targed** - Lefel risg derbyniol mae'r Cyngor yn gobeithio ei chyflawni yw'r sgôr risg targed.

## 8.2 DULL O REOLI / PARODRWYDD I DDERBYN RISG

Mae'r tabl (isod) yn rhoi arweiniad ar barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn dibynnu ar sgôr cyffredinol terfynol y risg.

| Lliw | Sgôr | Dull | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd | 1-3 | Derbyniol | isgiau o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg |
| Melyn | 4-6 | Digonol | Risgiau o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg sydd angen eu monitro gan Uwch Reolwyr, os bydd yn dirywio |
| Oren | 8-12 | Goddefol | Risgiau o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg ond nid ar lefel dderbyniol |
| Coch | 15-25 | Annerbyniol | Risgiau sydd y tu hwnt i barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg |

# 9.0 Cyfathrebu ac adrodd

Er mwyn i reoli risg fod yn effeithiol, mae angen iddo fod yn rhan annatod o weithrediad dydd i ddydd y gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y pedwar cam allweddol sef dynodi, asesu, rheoli a monitro ac adolygu risgiau, ond hefyd ffyrdd clir o gyfathrebu ac adrodd am risgiau. Pan fydd datblygiadau'n digwydd dros amser, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gyfathrebu a'i adrodd arno i sicrhau bod y wybodaeth wedi'i chasglu a'i chynnwys yn y ddogfen hon er mwyn cysondeb.

## 9.1 MONITRO DIFFYG CYDYMFFURFIAETH

Mae'n hanfodol bod y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei ddilyn, a bod risgiau'n cael eu hadolygu bob mis. Pan na fydd hyn yn digwydd, fe'i hystyrir fel diffyg cydymffurfio â'r broses a bydd adroddiad diffyg cydymffurfio yn cael ei rannu â Thîm y Prif Swyddogion.

## 9.2 MATHAU O GOFRESTRAU RISG

Mae gan y Cyngor dri math o gofrestrau risg:

- **Corfforaethol** - mae cofrestr risgiau gorfforaethol yn nodi risgiau strategol sylweddol ac mae'r Tîm Prif Swyddogion a'r Cabinet yn rheoli'r rhain
- **Portffolio** - mae cofrestr risg portffolio'n nodi risgiau strategol, gweithredol a phrosiect ac yn cael eu rheoli gan y Portffolio
- **Gwasanaeth** - mae cofrestr risg gwasanaeth yn nodi risgiau gweithredol a phrosiect ac yn cael eu rheoli gan y Rheolwr Gwasanaeth / Tîm

